

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

CRYNODEB O DALIADAU GOFALWYR MAETH

Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Fel rhywun sydd wedi cael ei gymeradwyo fel gofalwr maeth, bydd gennych hawl i gael lwfans wythnosol ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn eich gofal, ar lefel sy'n gyson â'r isafswm lwfansau a bennir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lwfans maethu yn ymwneud ag oedran y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i leoli, a bydd yn cael ei dalu am bob plentyn neu berson ifanc tra byddant yn derbyn gofal gennych chi.

Ystod Oedran	Lwfans Maethu: Cyfradd Wythnosol £
0-4 oed	£194
5-15 oed	£177
16+ oed	£220

Efallai y byddwch hefyd yn gymwys i dderbyn ffi fel taliad, os ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd, sy'n cynnwys dangos y sgiliau a'r gallu i ofalu am unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'r Awdurdod Lleol yn ei leoli gyda chi. Os ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd, bydd gennych hawl i ffi lleoliad ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal gennych.

Ystod Oedran	Lwfans Maethu: Cyfradd Wythnosol £	Ffi Lleoli: Cyfradd Wythnosol £	Cyfanswm y Taliad Wythnosol
0-4 oed	194	103.75	297.75
5-15 oed	177	103.75	280.75
16+ oed	220	103.75	323.75

Mae nifer gyfyngedig o ofalwyr maeth hefyd yn cael eu cymeradwyo fel gofalwyr therapiwtig arbenigol, mae'r gofalwyr hyn yn derbyn taliad cytundebol wythnosol, yn lle'r ffi lleoli, yn gyfnewid am y cyfrifoldebau a'r sgiliau ychwanegol sydd ganddynt. Mae mwy o wybodaeth am y cynlluniau hyn ar gael gan y Tîm Lleoli Teuluoedd.

Gwneir taliadau bob pythefnos - trosglwyddir arian yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, fel arfer bob yn ail ddydd Mawrth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o arweiniad mewn perthynas â threuliau gofalu am blentyn maeth, a fyddai fel arfer yn dod o dan y lwfans maethu. Esbonnir y treuliau y disgwylir i ofalwyr maeth fod yn gyfrifol amdanynt yn fanwl isod. Os oes gennych unrhyw

ymholiadau am yr hyn y mae disgwyl i chi dalu amdano, dylech ofyn am ragor o wybodaeth gan eich gweithiwr goruchwyllo, a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi.

Bwriad y Lwfans Maethu yw talu am gostau'r canlynol:

- Dillad, yn cynnwys gwisgoedd chwaraeon a hamdden ar gyfer gweithgareddau cyffredinol, a phrynu gwisg ysgol newydd,
- Bwyd, yn cynnwys cinio yn yr ysgol ac yn cynnwys y mwyafrif o ofynion dietegol arbennig.
- Teithiau ysgol a diwrnodau cyswllt teulu.
- Anghenion diwylliannol a chrefyddol.
- Rhaid i arian poced fod yn unol â Chanllawiau Arian Poced Gofalwyr Maeth ac anrhegion eraill ar gyfer ffrindiau a theulu - fel y cytunwyd gyda'r gweithiwr cymdeithasol, hyd at gyfanswm y gost y cytunwyd arni.
- Lefel resymol o alwadau ffôn i ffrindiau, aelodau o'r teulu, gofal cymdeithasol ac ati, yn cynnwys arian ychwanegol / credyd ffôn symudol.
- Nwyddau ymolchi, gofal gwallt a gofal croen,
- Teithio o ddydd i ddydd yn gyffredinol, o fewn radiws o 20 milltir, gan gynnwys i'r ysgol ac yn ôl, apwyntiadau addysgol, apwyntiadau gofal iechyd arferol, a gweithgareddau hamdden. Mae'r lwfans hefyd yn cynnwys ymweliadau cyswllt, sy'n aros o fewn yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn rhesymol i deulu biolegol.
- Costau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau hamdden ac adloniant cyffredinol, gan gynnwys deunyddiau.
- Gwibdeithiau / ymweliadau ysgol yn unol â'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- Cost mynd gyda'r teulu maeth ar wyliau yn y DU neu dramor, gwibdeithiau, teithiau dydd ac ati.
- Traul gyffredinol y cartref.
- Prynu ac amnewid dodrefn y cartref yn gyffredinol (fel dillad gwely, lliain a bleindiau), teganau ac eitemau bach sy'n gysylltiedig â babanod (*fel offer diheintio poteli, poteli, mat newid cewynnau, bath babi ac ati.*).
- Gofal priodol i'r plentyn yn cynnwys gofal dydd cyffredinol neu drefniadau gofal plant eraill, oni bai bod trefniant penodol wedi'i nodi a'i gytuno ymlaen llaw fel cost neilltuol.
- Unrhyw gostau dydd i ddydd eraill sy'n gysylltiedig ag anghenion y plentyn / person ifanc sydd wedi ei leoli, oni y nodir a chytunir arnynt fel cost neilltuol.

Sylwch, oni y cytunwyd ymlaen llaw, ni fydd y Tîm Lleoli Teuluoedd yn gallu ad-dalu taliadau a wnaed gan ofalwyr am eitemau y maen nhw wedi eu prynu.

Taliadau Neilltuol

Gellir gwneud taliadau neilltuol lle nad yw'n rhesymol i ofalwr maeth dalu'r gost gyfan o'u lwfans maethu wythnosol. Gall hyn gynnwys rhai gweithgareddau hamdden, cymdeithasol neu addysgol sy'n arbennig o gostus, ond sy'n cael eu hystyried yn bwysig ar gyfer datblygiad cymdeithasol y plentyn.

Rhaid i'r Rheolwr Grŵp perthnasol gytuno ar unrhyw daliad neilltuol a bydd yn cael ei nodi yn y Cytundeb Lleoli Unigol, a fydd hefyd yn dangos sut a phryd y bydd y taliad hwn yn cael ei wneud, ac unrhyw drefniadau i'w adolygu. Rhaid gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw daliad neilltuol a'i gael ymlaen llaw.

Lwfans Maethu Ymlaen Llaw

Gellir gwneud taliad ymlaen llaw o £60 y plentyn / person ifanc mewn arian parod pan geir lleoliad newydd, pe bai hyn yn ddefnyddiol. Nodir hyn yn y Cytundeb Lleoli Unigol. Bydd y swm a delir ymlaen llaw yn cael ei ddiynnu o'r taliad cyntaf a drefnwyd o'r lwfans maethu, ar ôl dechrau'r lleoliad hwn.

Costau Teithio a Milltiroedd

Waeth sut y gwneir y siwrnai, mae'r lwfans maethu yn cynnwys teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol, apwyntiadau meddygol, gweithgareddau hamdden, cyswllt teuluol o fewn radiws o 20 milltir.

Y tu allan i'r radiws 20 milltir, telir y lwfans milltiroedd ar 0.45c y filltir, os ydych chi'n defnyddio'ch cerbyd eich hun.

Dylid cyflwyno treuliau bob mis ac ni thelir unrhyw hawliadau a gyflwynir fwy na 3 mis, ar ôl i'r gost gael ei thalu.

Gofal Maeth Seibiant

Darperir gofal maeth seibiant ar gyfer y plentyn/person ifanc yn y lleoliad, gyda chaniatâd gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch Swyddog Goruchwylio, naill ai yn unol â chynllun gofal y plentyn, neu er mwyn helpu a chynorthwyo'r gofalwr maeth. Bydd manylion unrhyw drefniant seibiant rheolaidd wedi ei nodi yn y Cytundeb Lleoli Unigol, a bydd unrhyw drefniant parhaus yn cael ei arolygu'n rheolaidd. Rhaid cymeradwyo unrhyw drefniant o ofal maeth seibiant ar gyfer y plentyn/person ifanc a leolir gyda chi ymlaen llaw

Taliadau Maethu Seibiant

Gofalwr Seibiant – Dangosir isod y taliadau nosol a wneir i ofalwyr sy'n darparu gofal seibiant. Fel gyda gofal maeth arferol, mae'r taliad i ofalwyr seibiant yn cynnwys yr elfennau lwfans maethu a'r ffi lleoliad. Os yw seibiant am 7 noson yr wythnos bydd y cyfraddau lwfans maethu a lleoliad teulu wythnosol a fanylir ar dudalen 1 yn berthnasol. Gwneir taliadau am ofal maeth seibiant am yn ôl. Mae lwfansau seibiant yn cynnwys elfen ar gyfer unrhyw gostau teithio a achosir wrth gasglu/dychwelyd y plentyn/person ifanc sy'n cael ei leoli.

Ystod Oedran	Cyfradd Lwfans Maethu £	Cyfradd Ffi Lleoli £	TÂL FESUL NOSON £
0–4 oed	27.71	14.82	42.53
5–15 oed	25.29	14.82	40.11
16+ oed	31.43	14.82	46.25

Prif Ofalwr

Rhaid i unrhyw gymorth ariannol a ddarperir gan yr awdurdod lleol ategu at a pheidio â dyblygu unrhyw gymorth ariannol arall a ddarperir ar gyfer y plentyn.

Pan ddarperir seibiant fel rhan o'r Cynllun Gofal a Chymorth ar gyfer y plentyn, i rwystro'r lleoliad rhag chwalu neu i gynorthwyo gyda lleoliad bregus, bydd yr elfen Ffi yn dal i gael ei thalu i'r prif ofalwr (os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd), ond bydd y Lwfans Maethu yn symud gyda'r person ifanc.

Ni fydd elfen Lwfans Maethu'r taliad maethu wythnosol yn cael ei thalu i'r prif ofalwr tra nad yw'r person ifanc dan sylw yn byw gyda nhw.

Gan fod y prif ofalwr maeth fel rheol yn cael ei dalu ymlaen llaw, mae'n debygol y bydd y taliadau a wneir i'r prif ofalwr yn cael eu cywiro ar ôl i'r cyfnod seibiant ddod i ben.

Darparu Gofal Dydd

Ar adegau pan fydd angen i ofalwyr maeth drefnu gofal am ychydig o oriau ar gyfer y plentyn/person ifanc sydd wedi ei leoli gyda nhw, yna bydd oedolyn neu aelod priodol o'r teulu, sy'n adnabyddus i'r gofalwr maeth ac y mae'r gofalwr maeth yn ymddiried ynddynt, fel rheol yn addas – dylid trafod hyn gyda'ch Gweithiwr Goruchwylio. Am gyfnod hirach, neu drefniadau rheolaidd, bydd angen i'r person dan sylw gael archwiliad DBS. Fel rheol, disgwylir i ofalwyr wneud unrhyw daliadau y maent yn teimlo sy'n briodol am y cyfnod byr o ofal hwn eu hunain.

Dan rai amgylchiadau, gellir darparu gofal dydd gan ofalwr maeth arall, a fydd yn cael ei dalu am y sesiwn. Bydd angen cytuno ar y trefniant hwn ymlaen llaw gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn a'ch Gweithiwr Goruchwylio. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gellir cymeradwyo gofal dydd yn cynnwys mynychu hyfforddiant gofalwyr maeth neu apwyntiad ysbyty, pan na ellir cael rhywun addas i ofalu am y plentyn, neu lle mae cyfarfod cynllunio ar gyfer y plentyn dan sylw wedi adnabod yr angen am ofal dydd seibiant. Rhaid cytuno unrhyw drefniant ymlaen llaw a bydd yn cael ei gymeradwyo ar sail un-tro, unigol.

Taliadau i Ofalwyr Maeth sy'n Darparu Gofal Dydd

Gwneir y taliad hwn i dalu am dreuliau mewn cysylltiad â gofal plentyn/person ifanc sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth a gymeradwywyd gan Dorfaen am sesiynau yn ystod y dydd. Telir am ofal dydd ar raddfa o £4.52 yr awr lawn, hyd at uchafswm o 8 awr y dydd.

Lwfansau Gwyliau Crefyddol –

Telir lwfans gwyliau crefyddol i ofalwyr maeth yn ychwanegol at y lwfans maethu wythnosol. Mae'r lwfans crefyddol/dathlu yn cyfateb i un wythnos o lwfans cysylltiedig ag oedran. Telir y lwfansau hyn ym mis Rhagfyr i roi digon o amser i brynu anrhegion ac eitemau dathlu eraill.

Tacsi

Defnyddir tacsis pan nad oes opsiwn arall, diogel neu amserol ar gael, a hynny'n unig. Fodd bynnag, os mai dyma'r prif fath o gludiant a ddefnyddir gan blentyn ac os yw'n rhan o'r Cynllun Gofal a Chymorth yna ystyrir tynnu elfen gludiant y lwfans maethu gan nad yw'r gofalwr maeth yn darparu cludiant. Fel arall, nid ydynt yn cael eu trin yn gyfartal â gofalwyr sy'n gwario eu lwfans teithio ar gostau teithio.

Dillad cychwynnol

Pan fydd plant yn mynd i leoliad newydd heb ddigon o ddillad, rhoddir lwfans dillad ar ôl trafod gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol. Caiff hyn ei gyfrif fel taliad neilltuol – gweler y nodiadau uchod

Amhariad ar leoliad

Os bydd lleoliad yn dod i ben, caiff unrhyw ordaliadau eu hadennill.

O ran taliadau sy'n benodol ar gyfer lleoliad plentyn a rhiant, gweler y Polisi Rhiant a Phlentyn.